

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40  
(BRECON ROAD, SIR FYNWY HYD AT Y FFIN  
SIROL YNG NGLANGRWYNE, POWYS)  
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU  
TRAFFIG DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40 ar Brecon Road, neu gerllaw iddi, rhwng y Fenni a'r ffin sirol yng Nglanrwyne yn Sir Fynwy a Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gorllewin o ganolbwynt y ffordd fynediad i safle Carafanau a Gwersylla Pyscodlyn Farm hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Glangrwyne Road. Disgwylir i'r ffordd fod ar gau dros nos o 20:00 i 06:00 o'r gloch neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

ii. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 30 mya ar y darn o'r A40A40 a ddisgrifir uchod. Bydd y terfynau cyflymder 40 mya neu 30 mya yn weithredol ar bob adeg o'r dydd a'r nos yn ystod cyfnodau'r gwaith.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 25 Hydref 2021 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A40 tua'r gogledd-orllewin i Grucywel, yr A4077 tua'r de-ddwyrain i gyfeiriad Gofilon a'r A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r dwyrain i ailymuno â'r A40 yn y Fenni. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau tua'r dwyrain sydd â therfyn pwysau dros 7.5 tonnell o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A40 tua'r gogledd-orllewin i gyfeiriad Aberhonddu, yr A470 tua'r de i gyfeiriad Merthyr Tudful, yr A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd tua'r dwyrain a'r A4143 tua'r gogledd i ailymuno â'r A40 yn y Fenni. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sydd â therfyn pwysau dros 7.5 tonnell sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

**THE A40 TRUNK ROAD (BRECON ROAD,  
MONMOUTHSHIRE TO THE COUNTY  
BOUNDARY AT GLANGRWYNEY, POWYS)  
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND  
RESTRICTIONS) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road on Brecon Road between Abergavenny and the county boundary at Glangrwyne in the Counties of Monmouthshire and Powys.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the trunk road that extends from a point 20 metres west of the centre point of the access to Pyscodlyn Farm Caravan and Camping site to a point 200 metres east of the centre point of its junction with Glangrwyne Road. The road closure is expected to operate intermittently overnight between 20:00 hours and 06:00 hours or until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work;

ii. impose either a 40 mph or 30 mph speed limit on the length of the A40 described above. The 40 mph or 30 mph speed limit will operate at all times, day and night during the works periods.

The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 20:00 hours on 25 October 2021 and will be in force for a maximum duration of 18 months.

The alternative route for eastbound traffic from the western extent of the closure will be via the A40 north-westbound to Crickhowell, A4077 south-eastbound towards Govilon and eastbound A465 Heads of the Valley Road to re-join the A40 at Abergavenny. Vice versa for westbound traffic from the eastern extent of the closure.

The alternative route for eastbound vehicles with a weight limit over 7.5 tonnes from the western extent of the closure will be via the A40 north-westbound towards Brecon, A470 southbound towards Merthyr Tydfil, eastbound A465 Heads of the Valley Road and northbound A4143 to re-join the A40 west of Abergavenny. Vice versa for westbound vehicles over 7.5 tonnes from the eastern extent of the closure.

Bydd mynediad ar gael i eiddo lleol ar hyd yr A40 Brecon Road tua'r dwyrain a thua'r gorllewin, ond dim ond hyd at y manau cau a bennir. Cynhelir mynediad i eiddo o fewn y ardal lle mae'r ffordd ar gau ar bob adeg drwy gael eu hebrwng drwy'r gwaith.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

Local access will be available along the A40 Brecon Road eastbound and westbound, but only up to the points of closure specified. Access to properties within the area of road closure will be maintained at all times via escort through the works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government